Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Y Cynllun Cyfryngwyr Tystion

## Adroddiad Blynyddol 2025

# Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Cynllun Cyfryngwyr Tystion: Adroddiad Blynyddol 2025

(Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025)

Mae’r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i registered.interme@Justice.gov.uk

# Rhagair gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder, y Gweinidog Catherine Atkinson



Mae 2025 wedi gweld ffocws parhaus ar ddioddefwyr a thystion o fewn ein system gyfiawnder. Mae'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion (WIS) yn dal i fod yn rhan bwysig o'r gwaith hwn, sy'n galluogi dioddefwyr a thystion agored i niwed i roi eu tystiolaeth orau mewn achosion troseddol.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ddiolchgar iawn i'r cyfryngwyr cofrestredig (RIs) ymroddedig sy'n helpu miloedd o ddioddefwyr a thystion agored i niwed i gael mynediad at gyfiawnder bob blwyddyn.


Yn 2025, parhaodd y galw am gyfryngwyr cofrestredig i dyfu, gyda'r WIS yn cael 10,403 o geisiadau am gymorth gan yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac ymarferwyr amddiffyn, sy'n 6.7% o gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er gwaethaf y cynnydd hwn yn y galw, roedd cyfraddau cyfateb wedi gwella, gyda 96.6% o geisiadau'n cael eu cyfateb yn llwyddiannus. Mae hyn yn adlewyrchu'r ymdrechion parhaus i gryfhau capasiti'r Cynllun a sicrhau cymorth amserol i'r rhai hynny sydd ei angen fwyaf, gyda 29 cyfryngwyr cofrestredig newydd yn ymuno â'r gofrestr yn 2025.

Mae bodlonrwydd â'r Cynllun yn parhau i fod ar lefelau uchel cyson, gyda 99.6% o adborth cadarnhaol gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae hyn yn brawf o broffesiynoldeb ac ymrwymiad cyfryngwyr cofrestredig sy'n gweithio ar draws y system cyfiawnder troseddol.

Rydym hefyd wedi cefnogi'r gymuned cyfryngwyr cofrestredig drwy ddiweddariadau i ganllawiau a pholisïau WIS a mentrau megis Cynhadledd WIS 2025, a oedd yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a chydweithio. Cyfarfu'r Bwrdd Llywodraethu a Safonau yn rheolaidd i ddarparu cyfeiriad strategol ac i lywio gwelliannau parhaus.

Gan edrych ymlaen at 2026, disgwylir i'r galw am gyfryngwyr gynyddu. Mae bodloni'r galw hwn drwy recriwtio, hyfforddi a chadw cyfryngwyr cofrestredig profiadol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Wrth i ni fyfyrio ar flwyddyn arall o gynnydd, hoffwn ddiolch i bob cyfryngwr cofrestredig am eu hymroddiad, eu proffesiynoldeb a'u hymrwymiad i ddioddefwyr a thystion agored i niwed

LLOFNOD



**Catherine Atkinson AS**
**Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder**

# Cynnwys


**Termau a byrfoddau** **6**

**Cyflwyniad: Y Cynllun Cyfryngwyr Tystion yn 2025** **7**

Cefndir 7

Crynodeb o 2025 7

Ffynonellau data 8

**2025: Y flwyddyn mewn rhifau** **9**

**Rhan Un: Trosolwg o’r Cynllun Cyfryngwyr Tystion** **10**

Y Tîm Cyfryngwyr Tystion 10

Bwrdd Llywodraethu a Safonau (GSB) y Cynllun Cyfryngwyr Tystion 10

**Rhan Dau: Dadansoddiad perfformiad 2025** **15**

Methodoleg 15

Crynodeb 15

Ceisiadau wedi’u canslo 16

Ceisiadau heb eu cyfateb 16

**Cyfanswm y ceisiadau am gyfryngwyr cofrestredig** **18**

**Ceisiadau yn ôl bregusrwydd y tystion** **20**

**Ceisiadau yn ôl oedran y tystion (plant/oedolion)** **24**

**Ceisiadau yn ôl math o dyst** **26**

**Ceisiadau gan y defnyddiwr** **28**

**Adborth gan ddefnyddwyr** **30**

**Ffigurau Cyfryngwyr Cofrestredig Gweithredol** **32**

**Rhan tri: datblygiadau allweddol yn 2025** **34**

Recriwtio Cyfryngwyr Cofrestredig 34

Polisïau WIS wedi’u diweddaru 34

Cynhadledd flynyddol WIS 34

Cefnogaeth i gyfryngwyr cofrestredig sydd newydd gymhwyso 35

Cylchlythyr WIS 35
Gwella dealltwriaeth o rôl cyfryngwyr cofrestredig 35

**Rhan pedwar: cyllid y cynllun cyfryngwyr tystion 37**
Cyllideb weinyddol 37
Adolygiad blynyddol o gyfraddau tâl 37

**Rhan pump: edrych tua’r dyfodol 38**
Cynyddu gallu WIS 38
Codi Ymwybyddiaeth 38
Datblygu effeithlonrwydd WIS 38

# Termau a byrfoddau

| | |
|---|---|
| ABE | Sicrhau'r Dystiolaeth Orau |
| aRI | Cyfryngwr Cofrestredig Achredededig |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| CPS | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| Defnyddiwr | Y parti sy'n gofyn am wasanaethau Cyfryngwr Cofrestredig, fel arfer yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron |
| IRB | Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr |
| MoJ | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| NCA | Yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol |
| NPCC | Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu |
| NQRI | Cyfryngwr Cofrestredig sydd Newydd Gymhwyso |
| QAB | Y Bwrdd Sicrhau Ansawdd |
| RfS | Cais am Wasanaeth |
| RI | Cyfryngwr Cofrestredig |
| RIRT | Tîm Cyfeirio Cyfryngwyr Cofrestredig |
| Adran 28 | Mae Adran 28 (a.28) Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn caniatáu i dystion cymwys recordio eu croesholiad neu eu hail-holiad ymlaen llaw cyn y treial. |
| SLT | Therapydd Iaith a Lleferydd |
| WIS | Cynllun Cyfryngwyr Tystion |
| WIT | Tîm Cyfryngwyr Tystion |
| YJCEA | Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 |

# Cyflwyniad: Y Cynllun Cyfryngwyr Tystion yn 2025

## Cefndir

Treialwyd y Cynllun Cyfryngwyr Tystion am y tro cyntaf yng Nghymru a Lloegr yn 2004 i weithredu'r mesur arbennig ar gyfer cyfryngwyr yn Neddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (YJCEA). Cafodd y gwasanaeth ei gyflwyno'n genedlaethol yn 2008 a sefydlodd gofrestr o gyfryngwyr a gafodd eu recriwtio a'u hyfforddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ).

Mae'r cyfryngwyr sydd wedi'u hyfforddi o dan y WIS yn cael eu galw'n Gyfryngwyr Cofrestredig (RI).

Mae cyfryngwyr cofrestredig yn arbenigwyr cyfathrebu diduedd, a'u rôl yw hwyluso cyfathrebu dwyffordd cyflawn, cydlynol a chywir rhwng gweithwyr proffesiynol y system gyfiawnder a phobl agored i niwed sydd ag anghenion cyfathrebu. Nod cyfryngwyr yw gwella ansawdd y dystiolaeth a hwyluso dealltwriaeth a chyfranogiad y person agored i niwed yng ngweithdrefnau'r heddlu ac achosion troseddol. Mae eu cymorth yn aml yn golygu bod person agored i niwed, na fyddai fel arall yn gallu rhoi tystiolaeth, yn gallu gwneud hynny.

Mae Adran 16 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn nodi bod tyst mewn achos troseddol yn gymwys i gael cymorth gan gyfryngwr os:

- ydynt o dan 18 oed ar adeg y gwrandawiad; neu
- mae'r llys o'r farn bod ansawdd eu tystiolaeth yn debygol o fod ddim cystal oherwydd:
    - anhwylder meddwl (o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983[1]); neu
    - nam sylweddol ar weithrediad cymdeithasol a deallusrwydd; neu
    - anabledd corfforol neu anhwylder corfforol.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o lywodraethu, gweithrediad a pherfformiad WIS rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Rhagfyr 2025.

## Crynodeb o 2025

Yn 2025, mae'r WIS wedi parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gyda chyfraddau cyfateb yn gwella yn erbyn cefndir o alw cynyddol am gyfryngwyr cofrestredig.

[1] Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn diffinio 'anhwylder meddwl' fel 'unrhyw anhwylder neu anabledd meddwl'.

Cafodd y WIS gyfanswm o 10,403 o geisiadau am gymorth cyfryngwr cofrestredig yn 2025, 6.7% o gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cafodd 96.6% o geisiadau am gymorth cyfryngwr cofrestredig eu cyfatebu'n llwyddiannus, sy'n 0.8% o gynnydd ar 2024.

Parhaodd y WIS i adeiladu ar ei welliannau gweithredol, gan gynnal y broses cyfateb swmp, a gyflwynwyd yn wreiddiol ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r broses hon yn galluogi cyfryngwr cofrestredig i ddewis achosion oddi ar restr ar lwyfan ar-lein, gan ganiatáu i'r Tîm Cyfryngwyr Tystion ddefnyddio ei adnoddau'n fwy effeithlon a blaenoriaethu'r achosion mwyaf cymhleth ac sydd â blaenoriaeth uchel

Roedd yr adborth gan ddefnyddwyr (h.y. yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron) yn gadarnhaol dros ben, gyda 99.6% o'r ymatebion yn cael eu cofnodi fel rhai 'rhagorol', 'mwy na boddhaol' neu 'boddhaol'.

Mae recriwtio'n parhau i fod yn flaenoriaeth ac ariannodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymgyrch recriwtio ddechrau'r flwyddyn a ychwanegodd 29 cyfryngwyr cofrestredig newydd at gofrestr WIS ar ôl iddynt lwyddo yn yr hyfforddiant. Roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi adolygu canllawiau a pholisïau WIS ar sail adborth gan y gymuned cyfryngwyr cofrestredig, gan sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel i unigolion agored i niwed.

Mewn perthynas â'r gymuned WIS, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder Gynhadledd Flynyddol WIS ddechrau 2025, a rhoddodd cyfleoedd i gyfryngwyr cofrestredig o ran datblygiad proffesiynol parhaus a rhwydweithio. Cyfarfu'r Bwrdd Llywodraethu a Safonau (GSB) bedair gwaith yn 2025 i ddarparu cyfeiriad strategol a llywio diwygiadau polisi.

## Ffynonellau data

Daw'r holl ystadegau yn yr adroddiad hwn, oni nodir yn benodol fel arall, gan y WIT.

# 2025: Y flwyddyn mewn rhifau

**10,403**
Cyfanswm y ceisiadau am wasanaeth

**10,048**
Ceisiadau am wasanaeth a gyfatebwyd

**99.6%**
Adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth

**96.6%**
O geisiadau wedi'u cyfateb yn llwyddiannus

**29**
Cyfryngwr cofrestredig newydd a recriwtiwyd

**43**
Ardaloedd heddlu wedi'u gwasanaethu

# Rhan Un: Trosolwg o'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y WIS, gan gynnwys materion strategol a pholisi, yn ogystal â chyllido a goruchwylio ei weinyddiaeth. Mae gweinyddiaeth y Cynllun ei hun wedi ei ddirprwyo i'r Asiantaeth Droseddu Genedlaethol (NCA). Darperir llywodraethiant drwy'r Bwrdd Llywodraethu a Safonau (GSB).

## Y Tîm Cyfryngwyr Tystion

Ers 2013, mae'r Tîm Cyfryngwyr Tystion (WIT) yn yr NCA wedi cyflawni gweithrediadau'r WIS, gan gynnwys defnyddio Cronfa Ddata'r Gwasanaeth Cyfateb, rheoli'r gofrestr cyfryngwyr cofrestredig a recriwtio a chofrestru cyfryngwyr cofrestredig.

Cefnogir y WIT gan y Cynghorwr Tystion Agored i Niwed Cenedlaethol, sy'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd mewn ymchwiliadau troseddol mawr i helpu i ddatblygu strategaethau rheoli tystion a chyfweld ar gyfer tystion sy'n arbennig o agored i niwed ac achosion cymhleth.

Elfen weithredol allweddol WIS yw'r gwasanaeth cyfateb. Dyma'r mecanwaith y mae'r WIT yn ei ddefnyddio i gyfateb cyfryngwyr cofrestredig i ofynion tystion ar gais y sawl sy'n gwneud cais am wasanaeth (heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, neu gyfreithiwr). Drwy'r gwasanaeth cyfateb, mae'r WIT yn casglu data sy'n ymwneud â defnyddio cyfryngwyr cofrestredig. Mae hyn yn cynnwys nifer y ceisiadau ym mhob ardal heddlu ranbarthol a'r rheswm/rhesymau dros y cais (fel y math o fregusrwydd ac oedran y tyst). Mae'r data hwn yn cael ei gofnodi ar gronfa ddata'r WIT ac mae'n caniatáu i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fonitro newidiadau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y galw am gyfryngwyr cofrestredig.

## Bwrdd Llywodraethu a Safonau (GSB) y Cynllun Cyfryngwyr Tystion

Mae'r Bwrdd Llywodraethu a Safonau yn goruchwylio perfformiad a chyfeiriad strategol WIS a'i nod yw sicrhau bod gwasanaethau cyfryngu proffesiynol o ansawdd uchel ar gael i ddioddefwyr a thystion sydd ag anghenion cyfathrebu. Mae'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli polisi'r Cynllun, yn ogystal â sicrhau ansawdd, rheoleiddio a monitro safonau proffesiynol Cyfryngwyr Cofrestredig sy'n gweithio yn y WIS.

Mae aelodau'r Bwrdd yn cyfrannu eu harbenigedd a'u dealltwriaeth i sicrhau bod y Cynllun yn parhau i fodloni anghenion y rhai hynny yn y system cyfiawnder troseddol.

Amcanion GSB y WIS yw:

- Cynnal atebolrwydd am berfformiad y WIS.
- Goruchwylio'r gwaith o gyflenwi a recriwtio Cyfryngwyr Cofrestredig

- Cytuno ar y safonau ar gyfer rheoli ansawdd recriwtio, hyfforddi, cofrestru a datblygiad proffesiynol parhaus cyfryngwyr cofrestredig, ac arwain ar hynny.
- Cynnal y gofrestr cyfryngwyr cofrestredig a sicrhau ei bod yn addas i'r diben.
- Sicrhau bod cyfryngwyr cofrestredig yn cael eu cefnogi i weithredu'n unol â'r Cod Ymarfer a'r Cod Moeseg.
- Sicrhau bod adborth a chwynion yn cael eu hymchwilio'n unol â Pholisi Adborth a Chwynion y WIS.
- Monitro a chefnogi datblygiad pob agwedd ar rôl broffesiynol cyfryngwyr cofrestredig.

Mae'r GSB yn cyfarfod bob chwarter ac mae'n cynnwys un ar bymtheg o aelodau. Mae pump o'r rhain yn aelodau annibynnol sy'n meddu ar arbenigedd proffesiynol mewn llywodraethu a sicrhau ansawdd. Mae'r aelodau annibynnol hefyd yn arwain ar feysydd sicrhau ansawdd penodol, megis datblygiad proffesiynol parhaus, recriwtio, neu adborth a chwynion. Mae saith aelod ychwanegol yn gynrychiolwyr swyddogol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, NCA, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Choleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (RCSLT).

| GSB: cynrychiolwyr swyddogol | |
|---|---|
| **Aelod** | **Rôl** |
| Sally Seaton-Jones/Laura Beaumont | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Cyd-gadeirydd GSB |
| Tom Henwood | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| Laura Watts | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| Sonya Baylis / Mark Howes | Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol |
| Genna Telfer / Sally Tidswell | Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) |
| Clare Moser | Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith |
| Tony Pointer/Sue James | GLITEF |
| Amy McKay | Cynrychiolydd Gwasanaeth Tystion Cyngor ar Bopeth |
| Janet Arkinstall | Cymdeithas y Gyfraith |
| Victoria Heron | Tîm Cyfeirio Cyfryngwyr Cofrestredig |
| Lindsay Cobain/Rebecca Jackson | Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon |

**GSB: aelodau annibynnol (2025)**

| Aelod | Proffil |
|---|---|
| **Yr Athro Karen Bryan** Cyd-gadeirydd GSB | **Yr Athro Karen Bryan** yw Is-Ganghellor Prifysgol Efrog Sant Ioan. Cymhwysodd yr Athro Bryan fel therapydd iaith a lleferydd o Brifysgol Newcastle upon Tyne, gan ennill ei PhD yno hefyd. Mae ei diddordebau ymchwil yn ymwneud ag anawsterau cyfathrebu ymhlith troseddwyr ifanc a phoblogaethau fforensig, yn ogystal ag effaith anawsterau cyfathrebu ar |

| | |
|---|---|
| | fynediad at ofal iechyd. Roedd yr Athro Bryan â swyddi o fewn y GIG tan 2013.<br><br>Mae'r Athro Bryan yn Athro Gwadd yn yr Adran Niwroseicoleg ym Mhrifysgol Warsaw, ac yn Gymrawd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd. Roedd hi hefyd yn aelod o'r Cyngor Proffesiynau Iechyd. Dyfarnwyd OBE iddi am ei gwasanaethau i addysg uwch yn 2018. |
| **Clare Hickey**<br>Arweinydd Mentora, Recriwtio a Hyfforddi | Mae Clare Hickey yn Ymgynghorydd Adnoddau Dynol llawrydd, sy'n cynghori busnesau ar strategaeth pobl, recriwtio, hyfforddi a datblygu, ac yn darparu hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar atebion.<br><br>Mae Clare yn cyfuno gwaith ymgynghori ag eistedd fel Ynad yn y Llysoedd Oedolion a'r Llysoedd Ieuenctid yn Ne Essex. Mae hi hefyd yn rhan o'r tîm 'Ynadon yn y Gymuned', yn ymweld ag ysgolion i gyflwyno gweithdai ar y farnwriaeth ac i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â throseddau cyllyll, bwlio seiber a Llinellau Cyffuriau. |
| **Karen Melvin**<br>Ymgynghorydd Cyffredinol | Mae Karen Melvin yn Therapydd Iaith a Lleferydd sydd wedi arbenigo mewn gweithio gydag Oedolion ag Anableddau Deallusol a/neu Awtistiaeth mewn amrywiol leoliadau Cymunedol, Cleifion Mewnol a fforensig y GIG ers 2005. Mae'n aelod o Grŵp Arweinwyr Clinigol a Gwasanaeth Rhanbarthol ar gyfer y boblogaeth hon yng Ngogledd Iwerddon ac mae hefyd yn Diwtor Makaton Rhanbarthol. Mae Karen yn Gyfryngwr profiadol sy'n gweithio drwy Gynllun Cyfryngwyr Cofrestredig Gogledd Iwerddon gyda dioddefwyr/tystion a drwgdybiedigion/diffynyddion o bob oed sy'n dangos gwahaniaethau cyfathrebu.<br><br>Mae Karen hefyd yn Diwtor ac yn ddatblygwr cynnwys ar gyfer sawl cwrs proffesiynol ar y Rhaglen Hyfforddiant Awtistiaeth Genedlaethol ar y cyd â GIG Lloegr a Chanolfan Anna Freud, Llundain. Mae'r rhain yn cynnwys Iechyd a Chyfiawnder, CAMHS, Iechyd Meddwl Cymunedol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cleifion Mewnol. Mae hi wedi bod yn ddarlithydd gwadd ym Mhrifysgol Ulster ar gyfer myfyrwyr Therapi Iaith a Lleferydd Israddedig.<br><br>Mae gan Karen brofiad personol o niwrowahaniaeth fel chwaer i oedolyn awtistig ag anabledd dysgu ac fel rhiant i blentyn awtistig sydd hefyd ag ADD. Mae hi'n frwd dros sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn cael mynediad at y system farnwrol ar sail deg a chyfartal gyda chefnogaeth garedig a sensitif. Mae ei diddordebau penodol ym meysydd mudandod sefyllfaol, unigolion nad ydynt yn siarad ac AAC (Cyfathrebu Amgen a Chynyddol). |

| | |
|---|---|
| **Carolyn McConnell**<br>Arweinydd Adborth a Chwynion | Mae Carolyn McConnell wedi gweithio ym maes gofal cymdeithasol ers dros 25 mlynedd, yn fwyaf diweddar fel Prif Swyddog Ansawdd a Risg ar gyfer elusen genedlaethol. Agwedd bwysig ar y rôl hon oedd gosod a monitro safonau gofal ar draws mwy na 500 o wasanaethau. Roedd y rôl hefyd yn cynnwys rheoli risg gorfforaethol, archwilio mewnol, ac adborth ar ddarpariaeth gwasanaeth.<br><br>Yng nghanol ei gyrfa ym maes gofal cymdeithasol, bu Carolyn hefyd yn gweithio i Awdurdod Heddlu Glannau Mersi cyn dychwelyd i ofal cymdeithasol. Yn ei rôl fel Dirprwy Brif Weithredwr, Carolyn oedd yn gyfrifol am fonitro perfformiad plismona, ymgysylltu â’r gymuned a safonau proffesiynol. Mae’r profiad hwn yn rhoi persbectif unigryw i Carolyn ar anghenion pobl agored i niwed a’r amgylchedd plismona.<br><br>Carolyn yw Brif Weithredwr presennol elusen leol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu ac mae ei hangerdd yn sicrhau bod gan bobl agored i niwed lais a’u bod yn cael eu cefnogi i gymryd rhan ym mhob rhan o’r gymuned.<br><br>Fel arweinydd ar gyfer adborth negyddol, mae Carolyn eisiau sicrhau y bydd yr agwedd hon ar waith y Bwrdd yn parhau i helpu i gynnal safonau uchel y Cynllun Cyfryngwyr Cofrestredig. |
| **Benjamin Roe**<br>Arweinydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus a Chofrestr Cyfryngwyr Cofrestredig | Ben Roe yw Prif Gyfreithiwr Gwybodaeth grŵp anghydfodau a chydymffurfiaeth byd-eang cwmni cyfreithiol rhyngwladol blaenllaw. Mae’n gyfrifol am anghenion gwybodaeth, datblygiad proffesiynol a hyfforddiant oddeutu 1400 o gyfreithwyr ymgyfreitha, cyflafareddu a chydymffurfiaeth ar draws 77 swyddfa.<br><br>Mae Ben yn gyfreithiwr ymgyfreitha profiadol, a chyn ei rôl bresennol bu’n gweithio mewn practis preifat yn Llundain. Mae wedi rheoli nifer o achosion proffil uchel, yn aml yn ymwneud â materion trawsffiniol. Mae ganddo brofiad helaeth o baratoi tystion ar gyfer treial a chefnogi unigolion drwy broses sy’n aml yn anghyfarwydd.<br><br>Mae gan Ben Hawliau i Ymddangos mewn Uwch Lys, ac mae’n gyfryngwr sydd wedi’i achredu gan CEDR. Mae’n un o Swyddogion Pwyllgor Ymgyfreitha Cymdeithas Ryngwladol y Bar. Mae Ben hefyd yn aelod o Gymdeithas Cyfreithwyr Cymorth Ymgyfreitha Proffesiynol ac yn gyn Aelod Pwyllgor o Gymdeithas Ymgyfreitha Cyfreithwyr Llundain. |

## Tîm Cyfeirio Cyfryngwyr Cofrestredig (RIRT)

Mae'r Tîm Cyfeirio Cyfryngwyr Cofrestredig yn cynnwys cynrychiolwyr a benodir gan bob un o grwpiau rhanbarthol cyfryngwyr cofrestredig, a'i nod yw cynrychioli buddiannau cyfryngwyr cofrestredig i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rôl RIRT yw:

- Darparu fforwm i'r gymuned o gyfryngwyr cofrestredig godi materion perthnasol ynghylch WIS i grŵp hunan-ddewisedig o gymheiriaid i'w trafod mewn amgylchedd ffurfiol gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Sicrhau cynrychiolaeth o'r gymuned cyfryngwyr cofrestredig drwy ei haelodaeth, gan adlewyrchu, cyn belled ag y bo modd, trawstoriad o'r gymuned honno gan wahanol broffesiynau a galwedigaethau, gwahanol batrymau gweithio a chefndiroedd. Cynrychioli holl ardaloedd grwpiau cefnogi rhanbarthol.
- Sicrhau bod y berthynas rhwng y gymuned cyfryngwyr cofrestredig a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill yn cael ei chynrychioli a'i rheoli'n effeithiol.

Mae'r RIRT yn cyfarfod bob chwarter gyda chynrychiolwyr o Bolisi Mesurau Arbennig Troseddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Rhan Dau: Dadansoddiad perfformiad 2025

## Methodoleg

Mae'r NCA yn casglu data sy'n ymwneud â cheisiadau am wasanaeth (RfS) ar gyfer cyfryngwyr cofrestredig, sy'n darparu trosolwg cynhwysfawr o'r gwasanaethau WIS blynyddol a ddarperir. Dyma'r brif ffynhonnell ddata ar gyfer dadansoddi perfformiad WIS.

Mae'r data'n cynnwys:

- Cyfanswm nifer y ceisiadau am Gyfryngwr Cofrestredig
- Ceisiadau yn ôl bregusrwydd y tystion
- Ceisiadau yn ôl oedran y tystion (plentyn neu oedolyn)
- Ceisiadau yn ôl math o dyst
- Ceisiadau yn ôl y defnyddiwr (yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron)
- Adborth gan ddefnyddwyr ar gyfer 2025
- Nifer y cyfryngwyr cofrestredig gweithredol ac anweithredol (ffigurau misol)

Mae'r data'n cael ei grynhoi rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Rhagfyr 2025. Mae hyn yn cynnwys newidiadau yn nifer y ceisiadau a'r newidiadau sy'n ymwneud â dosbarthu ceisiadau ar draws bregusrwydd, oedran tystion, mathau o dystion a defnyddwyr, yn ogystal â nifer y ceisiadau sydd wedi'u cyfateb, heb eu cyfateb a rhai sydd wedi eu canslo. Mae'r adran hon hefyd yn ymdrin ag argaeledd cyfryngwyr cofrestredig ac adborth gan ddefnyddwyr, a ddiffinnir gan bedwar maen prawf asesu o 1,231 o achosion sy'n ymwneud â dioddefwyr a thystion yr erlyniad lle cafwyd adborth.

Er mwyn archwilio tueddiadau ehangach o fewn WIS a darparu cymariaethau i ddehongli data 2025, bydd yr adran hon yn cyfeirio at ddata gwasanaeth cyfatebol o 2025 (1 Ionawr 2025 i 31 Rhagfyr 2025). Mae data o'r un cyfnodau blynyddol ar gyfer 2023 a 2024 hefyd wedi cael eu cynnwys i ddarparu cyd-destun tymor hir o ran y galw am wasanaethau WIS. Mae pob cyfeiriad at gynnydd a gostyngiad yn cael ei fesur yn nhermau newid canrannol.[2]

## Crynodeb

Yn 2025, derbyniodd y WIS 10,403 o geisiadau am wasanaeth cyfryngwyr cofrestredig, sy'n cynrychioli 6.7% o gynnydd ar y flwyddyn flaenorol a'r nifer uchaf o geisiadau am gyfryngwyr cofrestredig mewn blwyddyn galendr ers cyflwyno WIS yn genedlaethol yn 2008.

Mae'r cynnydd cyffredinol mewn gwasanaeth yn cyfateb i gynnydd yn nifer y ceisiadau ar gyfer pedwar o'r saith categori bregusrwydd a gofnodwyd; dangosir hyn ar ffigur 4. O'r tri bregusrwydd arall a gofnodwyd, gostyngodd nifer y ceisiadau sy'n ymwneud â phlant ag

[2] Yn hytrach na newid mewn pwynt canran.

anabledd corfforol 12.2%, fel y gwnaeth ceisiadau ar gyfer plant nad ydynt â fregusrwydd cydamserol (-2.3%) ac oedolion ag anabledd corfforol (-1.4%)

Gwelwyd y cynnydd mwyaf ymhlith ceisiadau ar gyfer plant ag anabledd dysgu (14%, y bregusrwydd a nodwyd amlaf yn gyffredinol) a phlant ag anhwylder meddwl (11.6%).

Llwyddwyd i gyfateb 96.6% o geisiadau, a oedd yn gynnydd cyffredinol o 0.8% ers 2024. Nid yw'r cynnydd hwn yr un fath yn gyffredinol, gyda'r cyfraddau cyfateb llwyddiannus yn amrywio ar draws ceisiadau ar gyfer oedolion a phlant. Gwelir y cynnydd blynyddol mwyaf arwyddocaol ar gyfer plant ag anabledd corfforol, gyda chyfradd cyfateb lwyddiannus o 99.1% (3.1% o gynnydd ers 2024). Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r ystadegau'n dangos bod WIS yn cyfateb ceisiadau i gyfryngwyr cofrestredig gyda'r sgiliau priodol yn y mwyafrif helaeth o achosion.

Heddluoedd sy'n ffurfio rhan fwyaf o'r galw o hyd, gyda 79.4% o geisiadau am wasanaeth yn deillio o'r cyfnod ymchwilio; fel y dangosir yn **ffigur 10** (*gweler tudalen 27*). Mae ceisiadau gan yr heddlu wedi cynyddu 6.1% yn flynyddol i 8,259 o geisiadau. Roedd ceisiadau gan Wasanaeth Erlyn y Goron hefyd wedi gweld 8.9% o gynnydd, i 2,140.

Roedd adborth defnyddwyr am gyfryngwyr cofrestredig drwy gydol 2025 yn dal yn gadarnhaol iawn, gyda 99.6% o'r holl ymatebion yn cael eu cofnodi fel rhai 'rhagorol', 'mwy na boddhaol' neu 'boddhaol'.

## Ceisiadau wedi'u canslo

Gellir canslo cais am gyfryngwyr cofrestredig mewn amgylchiadau fel ple euog cynnar, tynnu cwyn gan y dioddefwr yn ôl, neu os nad yw'r tyst yn gallu neu'n dymuno bwrw ymlaen am unrhyw reswm (e.e. rhesymau meddygol). Yn 2025, cafodd 1.8% o geisiadau am wasanaeth eu canslo.

## Ceisiadau heb eu cyfateb

Mae ceisiadau heb eu cyfateb yn cyfeirio at achosion lle na ellid aseinio cyfryngwr cofrestredig i achos yn dilyn cais am gymorth cyfryngwr cofrestredig.

Os bydd y llys yn cytuno i ohirio, bydd y cais yn dal i gael ei gofnodi fel un heb ei gyfateb a bydd cais newydd (yn adlewyrchu dyddiad newydd y treial) yn cael ei gynhyrchu. Felly, nid yw ceisiadau heb eu cyfateb o reidrwydd yn dangos nad oedd yr unigolyn yr oedd angen cymorth arno wedi derbyn cyfryngwr ar gyfer yr achos hwnnw.

Gall cais am gyfryngwyr cofrestredig beidio cael ei gyfateb mewn amgylchiadau lle nad yw'r WIT yn gallu darparu cyfryngwr cofrestredig o fewn yr amserlen a bennir gan y defnyddiwr, os nad oes unrhyw gyfryngwyr cofrestredig yn gallu derbyn achos, neu os nad oes cyfryngwr cofrestredig ar gael ar ddyddiad(au) treial. Mewn amgylchiadau eithriadol o brin, efallai na fydd y WIT yn gallu darparu cyfryngwr cofrestredig â'r sgiliau angenrheidiol i ymgymryd ag achos cymhleth.

Os nad yw'n bosibl cyfateb cais gan yr heddlu, bydd y Cynghorwr Tystion Agored i Niwed Cenedlaethol yn darparu cyngor arbenigol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy gyngor dros y ffôn neu drwy e-bost i ymchwilwyr yr heddlu sy'n ystyried yr ymchwil seicolegol ddiweddaraf, a bydd yn cynnwys defnyddio technegau a dulliau holi priodol i fodloni

anghenion cyfathrebu'r unigolyn agored i niwed, wedi'u haddasu'n briodol mewn ffordd sy'n debygol o fod yn dderbyniol i'r system cyfiawnder troseddol.

Os nad yw'n bosibl cyfateb cais yn ystod y cam llys, ni fydd y Cynghorwr Tystion Agored i Niwed Cenedlaethol yn gallu darparu cyngor pwrpasol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd datganiad cyngor safonol yr NCA yn cael ei ddarparu.


Yn 2025, roedd 1.2% o geisiadau am wasanaeth heb eu cyfateb.

# Cyfanswm y ceisiadau am gyfryngwyr cofrestredig

Gwnaed cyfanswm o 10,403 o geisiadau am gyfryngwyr cofrestredig drwy WIS yn 2025, sef cyfartaledd o 867 o geisiadau bob mis. Mae hyn yn 6.7% o gynnydd mewn ceisiadau (650 o achosion) ar 2024, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gwnaed 9,753 o geisiadau bob blwyddyn.

Mae hefyd yn cynrychioli 762.6% o gynnydd ers 2010, pan wnaed 1,206 o geisiadau (**ffigur 1**).


**Ffigur 1**




## Newid cyffredinol: cyfraddau cyfateb llwyddiannus

O blith 10,403 o geisiadau yn 2025, cafodd 96.6% (10,048) eu cyfateb yn llwyddiannus gan WIT, gyda 1.2% (129) heb eu cyfateb, a 1.8% (191) yn cael eu canslo.[3]

[3] Roedd 0.9% (82) o achosion yn dal yn y broses gyfateb ym mis Ionawr 2026.


Cyfanswm y ceisiadau a gyfatebwyd: cymhariaeth flynyddol
2025
96.6
2024
95.8
2023
94.8
2022
95.4
75
80
85
90
95
100
Canran o geisiadau a gyfatebwyd

**Ffigur 3**

# Ceisiadau yn ôl bregusrwydd y tystion

Mae saith categori bregusrwydd y gellir eu cofnodi ar ffurflenni Cais am Wasanaeth (RfS) Cyfryngwyr Cofrestredig i nodi anghenion tyst:[4]

- Plentyn heb Fregusrwydd Cydamserol
- Plentyn ag Anhwylder Meddwl[5]
- Plentyn ag Anabledd Dysgu
- Plentyn ag Anabledd Corfforol
- Oedolyn ag Anhwylder Meddwl
- Oedolyn ag Anabledd Dysgu
- Oedolyn ag Anabledd Corfforol

Gan y gall tyst fod â nifer o wendidau wedi'u nodi ar ffurflen RfS, mae'r ffigurau cyfun yn yr adran hon yn fwy na'r ffigurau ar gyfer cyfanswm nifer y ceisiadau a nodir uchod.

## Diffiniadau ac enghreifftiau

Nid yw'r enghreifftiau a nodir yn y tabl isod yn gynhwysfawr. Dim ond rhai o'r cyflyrau sy'n gallu effeithio ar allu person i gyfathrebu'n effeithiol yw'r rhain.

Mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth cyfryngwr cofrestredig (fel y nodir yn adran 16 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999) wedi'u nodi ar dudalen 6 yr adroddiad hwn.

| Math o fregusrwydd | Diffiniadau/enghreifftiau nad ydynt yn gynhwysfawr |
|---|---|
| **Plentyn heb fregusrwydd cydamserol** | Mae'n cyfeirio'n unig at blant sydd â hawl i gyfryngwyr cofrestredig oherwydd mai eu hunig fregusrwydd yw bod o dan 18 oed. |
| **Anhwylder meddwl** | Unrhyw anhwylder neu anabledd meddwl.<br>Gall enghreifftiau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: orbryder; iselder; anhwylder affeithiol deubegynol; anhwylder gorfodaeth obsesiynol; anhwylder personoliaeth; sgitsoffrenia; dementia (gan gynnwys clefyd Alzheimer). |
| **Anabledd dysgu** | Mae'n effeithio ar y ffordd y mae person yn deall gwybodaeth neu sut y mae'n cyfathrebu. Mae hyn yn golygu eu bod yn ei chael yn anodd: deall gwybodaeth newydd neu gymhleth; dysgu sgiliau newydd; ymdopi'n annibynnol.[6] |

[4] Er mwyn gofyn am gymorth cyfryngwr cofrestredig, mae'r defnyddiwr (yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron fel arfer) yn cyflwyno ffurflen RfS i Dîm Cyfryngwyr Tystion yr NCA. Mae pob cais yn nodi bregusrwydd neu wendidau'r tyst.

[5] Mae anhwylder meddwl o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983

[6] Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, 2018 (www.nhs.uk/conditions/learning-disabilities/)

| | |
|---|---|
| | Gallai enghreifftiau gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: ADHD; anhwylder sbectrwm awtistiaeth (gan gynnwys Syndrom Asperger); dysarthria; oedi/anhwylder iaith; mudandod ddethol. |
| **Anabledd corfforol** | Nam corfforol sy'n cael effaith negyddol sylweddol a hirdymor ar allu person i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.[7]<br>Gallai enghreifftiau gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: Atal dweud; anhwylder llais (gan gynnwys laryngectomi a thracheotomi); anaf i'r ymennydd neu i'r pen (gan gynnwys strôc); anhwylderau niwrolegol a chynyddol (gan gynnwys clefyd niwronau motor a chlefyd Parkinson); parlys yr ymennydd. |

## Dadansoddiad o'r bregusrwydd neu wendidau a nodwyd yn y ffurflenni cais am wasanaeth

O'r gwendidau a nodwyd ar ffurflenni RfS yn 2025, roedd 24.4% ar gyfer 'Plentyn ag anabledd dysgu', sy'n golygu mai dyma'r math o fregusrwydd a nodwyd amlaf. Dilynwyd hyn yn agos gan oedolion ag anabledd dysgu ar 24%, Plentyn heb fregusrwydd cydamserol ar 21.2%, ac Oedolion ag Anabledd Iechyd Meddwl ar 17.2%.

## Newid ar draws yr holl geisiadau

O'i gymharu â data o 2024, cofnodwyd cynnydd yng nghyfanswm y cyfeiriadau ar ffurflenni RfS ar gyfer pob un categori bregusrwydd, ac eithrio un (plant heb fregusrwydd cydamserol) (**Tabl 1**[8]).[9]

Ar gyfer dioddefwyr a thystion sy'n blant, mae'r cyfeiriadau ar gyfer anhwylderau meddwl wedi cynyddu 11.6%, ac ar gyfer y rhai hynny sydd ag anableddau dysgu mae wedi cynyddu 14.0%, ac ar gyfer y rhai hynny sydd ag anableddau corfforol mae wedi gostwng 12.2%. Fel y gwelwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gostyngodd nifer y ceisiadau ar gyfer plant heb fregusrwydd cydamserol (2.3% o ostyngiad).


Ar gyfer dioddefwyr a thystion sy'n oedolion, cynyddodd y cyfeiriadau ar gyfer anhwylderau meddwl 11.0%, roedd y rhai ar gyfer anableddau dysgu wedi cynyddu 9.5%, ac roedd y rhai ar gyfer anableddau corfforol wedi gostwng 1.4%.

[7] Deddf Cydraddoldeb 2010, Adran 6(1)

[9] Ffigur 4 a Thabl 1, *Data Gwasanaeth Cyfateb NCA 2023 – 2025*

| Newid ar draws pob cais (Mathau o fregusrwydd) | | | |
|---|---|---|---|
| **Bregusrwydd** | **2024** | **2025** | **Newid ers 2024 (%)** |
| **Plentyn (heb fregusrwydd cydamserol)** | 2,888 | 2,823 | **-2.3** |
| **Plentyn - Anhwylder Meddwl** | 854 | 953 | **11.6** |
| **Plentyn - Anabledd Dysgu** | 2,855 | 3,255 | **14.0** |
| **Plentyn - Anabledd Corfforol** | 123 | 108 | **-12.2** |
| **Oedolyn - Anhwylder Meddwl** | 2,064 | 2,291 | **11.0** |
| **Oedolyn - Anabledd Dysgu** | 2,931 | 3,208 | **9.5** |
| **Oedolyn - Anabledd Corfforol** | 714 | 704 | **-1.4** |

**Tabl 1**




## Cyfraddau cyfateb llwyddiannus


O’i gymharu â 2024, cofnodwyd cynnydd yng nghanran y ceisiadau a gyfatebwyd ar draws pob math o fregusrwydd ymysg plant, cynyddodd canran y ceisiadau a gyfatebwyd ar gyfer gwendidau meddyliol a dysgu yn ogystal ag anabledd corfforol (gweler Tabl 2 a Ffigur 6).

Ar gyfer dioddefwyr a thystion sy’n oedolion, roedd canran y ceisiadau a gyfatebwyd wedi cynyddu ar draws bron pob math o fregusrwydd ymysg oedolion, gyda dim ond un gostyngiad wedi’i nodi ar gyfer oedolion ag anabledd corfforol (-1.5%) - gweler hefyd Tabl 2 a **Ffigur 6**.[10]

[10] Tabl 2 a Ffigur 6, *Data Gwasanaeth Cyfateb NCA 2024 – 2025*

| Newid mewn cyfraddau cyfateb llwyddiannus (Mathau o Fregusrwydd) | | | |
|---|---|---|---|
| **Bregusrwydd** | **Wedi cyfateb yn 2024 (%)** | **Wedi cyfateb yn 2025 (%)** | **Newid ers 2024 (%)** |
| **Plentyn (heb fregusrwydd cydamserol)** | 98.1 | 98.8 | 0.7 |
| **Plentyn - Anhwylder Meddwl** | 97.0 | 97.3 | 0.3 |
| **Plentyn - Anabledd Dysgu** | 98.2 | 98.3 | 0.1 |
| **Plentyn - Anabledd Corfforol** | 95.9 | 99.1 | 3.2 |
| **Oedolyn - Anhwylder Meddwl** | 90.9 | 93.4 | 2.5 |
| **Oedolyn - Anabledd Dysgu** | 93.1 | 94.4 | 1.3 |
| **Oedolyn - Anabledd Corfforol** | 92.6 | 91.1 | -1.5 |

**Tabl 2**




**Ffigur 6**

# Ceisiadau yn ôl oedran y tystion (plant/oedolion)


Mae'r NCA yn cofnodi nifer y ceisiadau a wnaed ar ran oedolion a phlant:

- Plant (dan 18 oed)
- Oedolion (dros 18 oed)

## Dadansoddiad o'r ceisiadau (plant/oedolion)

O'r 10,403 o geisiadau am gyfryngwyr cofrestredig yn 2024, roedd 61.2% o'r ceisiadau (6,371) ar gyfer plant. Cafodd y 38.8% arall (4,032) eu gwneud ar ran oedolion.

**Dadansoddiad o geisiadau (oedolyn/plentyn): 2025**




**Ffigur 7**

## Newid ar draws yr holl geisiadau

O'i gymharu â 2024, mae nifer y ceisiadau ar gyfer plant ac ar gyfer oedolion wedi cynyddu 6.1% (368 o geisiadau) a 7.5% (282 o geisiadau) yn y drefn honno, gyda chynnydd nodedig yn enwedig mewn ceisiadau ar gyfer oedolion ag anawsterau dysgu.

| Newid ar draws yr holl geisiadau (yn ôl oedran y tyst) | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | 2024 | 2025 | Newid (%) |
| **Plentyn** | 6,003 | 6,371 | **+6.1** |
| **Oedolyn** | 3,750 | 4,032 | **+7.5** |

**Tabl 3**

# Cyfraddau cyfateb llwyddiannus

Wrth gymharu 2025 â 2024, roedd y cyfraddau cyfateb llwyddiannus wedi cynyddu ar gyfer plant ac ar gyfer oedolion. Fel sy'n cael ei ddangos yn Nhabl 4, yr amrywiant yn y pwynt canran oedd +0.3% a +1.5% yn y drefn honno.

| Newid mewn cyfraddau llwyddo (oedran y tyst) | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | 2024 (%) | 2025 (%) | Newid yn y Ceisiadau a Gyfatebwyd (%) |
| **Plant** | 98.1 | 98.4 | **+0.3** |
| **Oedolion** | 92.2 | 93.7 | **+1.5** |

**Tabl 4**

# Ceisiadau yn ôl math o dyst


Mae’r NCA yn rhannu data ceisiadau am wasanaeth a gyfatebwyd yn dri math o dyst.

- Dioddefwyr
- Tystion dros yr Erlyniad
- Tyst dros yr Amddiffyniad

## Dadansoddiad o’r ceisiadau

O’r 10,403 o geisiadau am gyfryngwyr cofrestredig yn 2025, roedd 94.6% o’r ceisiadau a gofnodwyd (9,839) yn perthyn i’r categori ‘Dioddefwyr’, cafodd 5.4% (560) eu gwneud ar gyfer ‘tystion dros yr erlyniad’, a chafodd <0.1% eu gwneud ar gyfer tystion dros yr amddiffyniad.

Dadansoddiad o geisiadau (math o dyst): 2025




**Ffigur 8**

## Newid ar draws yr holl geisiadau

Mae cymharu â 2024 yn dangos 7.5% o gynnydd yn nifer y ceisiadau ar gyfer dioddefwyr. Cafwyd 5.7% o ostyngiad yn nifer y ceisiadau ar gyfer tystion dros yr erlyniad.

| Newid ar draws pob cais (math o dyst) | | | |
|---|---|---|---|
| Math o Dyst | 2024 | 2025 | Newid (%) |
| **Dioddefwyr** | 9155 | 9839 | **+7.5** |
| **Tystion dros yr Erlyniad** | 594 | 560 | **-5.7** |
| **Tystion dros yr Amddiffyniad** | 4 | 4 | **0** |


**Tabl 5**

## Cyfraddau cyfateb llwyddiannus

Roedd y gyfradd cyfateb llwyddiannus ar gyfer dioddefwyr a thystion dros yr erlyniad wedi cynyddu ychydig ers 2024. Gostyngodd y gyfradd cyfateb ar gyfer tystion dros yr amddiffyniad -25% rhwng 2024 a 2025, gan adlewyrchu un achos oherwydd y nifer isel o achosion tystion dros yr amddiffyniad.

| Newid mewn cyfraddau llwyddo (math o dyst) | | | |
|---|---|---|---|
| **Math o Dyst** | **2024 (%)** | **2025 (%)** | **Newid yn y Ceisiadau a Gyfatebwyd (%)** |
| **Dioddefwyr** | 96 | 96.7 | **+0.7** |
| **Tystion dros yr Erlyniad** | 93.3 | 93.9 | **+0.6** |
| **Tystion dros yr Amddiffyniad** | 100 | 75 | **-25** |

**Tabl 6**




**Ffigur 9**


# Ceisiadau gan y defnyddiwr

Mae tri chategori o ddefnyddwyr sydd wedi cyflwyno ceisiadau i'r NCA yn 2025:

- Yr Heddlu
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Cyfreithiwr

## Dadansoddiad o'r ceisiadau

Mae ceisiadau gan heddluoedd yn parhau i fod yn fwyafrif (79.4%, 8,259) o'r holl geisiadau am gyfryngwyr cofrestredig yn 2025, gyda cheisiadau gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn cyfrif am 20.6% (2,140 o geisiadau).[11] Mae ceisiadau gan gyfreithwyr a'r llysoedd yn cyfateb i geisiadau ar gyfer tystion dros yr amddiffyniad ac mae'r niferoedd yn dal yn eithriadol o fach (<0.1%); nid oes dadansoddiad pellach o'r data wedi'i ddarparu am y rheswm hwn.




**Ffigur 10**

[11] Ffigur 10, *Data Gwasanaeth Cyfateb NCA 2025*

## Newid ar draws yr holl geisiadau

Wrth gymharu 2025 â'r flwyddyn flaenorol, mae nifer y ceisiadau gan heddluoedd wedi cynyddu 6.1%, ac mae ceisiadau gan Wasanaeth Erlyn y Goron wedi cynyddu 8.9%.[12]

| Newid ar draws yr holl geisiadau | | | |
|---|---|---|---|
| **Defnyddiwr** | **2024** | **2025** | **Newid (%)** |
| **Yr Heddlu** | 7,784 | 8,259 | **+6.1** |
| **Gwasanaeth Erlyn y Goron** | 1,965 | 2,140 | **+8.9** |
| **Cyfreithiwr** | 4 | 4 | **0** |


**Tabl 8**

## Cyfraddau cyfateb llwyddiannus

Cynyddodd y gyfradd cyfateb lwyddiannus ar gyfer ceisiadau gan yr heddlu 0.6% ers 2024, a chynyddodd y gyfradd llwyddiant ar gyfer ceisiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron 1.5%.[13]

| Newid mewn cyfraddau llwyddo (defnyddiwr) | | | |
|---|---|---|---|
| **Defnyddiwr** | **2024 (%)** | **2025 (%)** | **Newid yn y Ceisiadau a Gyfatebwyd (%)** |
| **Yr Heddlu** | 97.1 | 97.7 | **+0.6** |
| **Gwasanaeth Erlyn y Goron** | 90.9 | 92.3 | **+1.5** |
| **Cyfreithiwr** | 100 | 75 | **-25.0** |

**Tabl 9**




**Ffigur 11**

[12] Tabl 8, *Data Gwasanaeth Cyfateb NCA 2023-2025*

[13] Tabl 9, *Data Gwasanaeth Cyfateb NCA 2023 - 2025*

# Adborth gan ddefnyddwyr

Caiff adborth gan ddefnyddwyr (fel arfer gan yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron) ei asesu gan ddefnyddio graddfa pum haen (rhagorol, mwy na boddhaol, boddhaol, llai na boddhaol, a gwael). Darperir adborth yn erbyn pedwar maen prawf penodol:


- Cydymffurfio â'r drefn droseddol
- Ymddygiad personol / proffesiynoldeb y cyfryngwr cofrestredig
- Ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd gan y cyfryngwr cofrestredig
- Pa mor ddefnyddiol oedd y cyfryngwr cofrestredig yn yr Achos

Mae'r adborth o dan bob maen prawf wedi'i ddadgyfuno rhwng darpariaeth cyfryngwyr cofrestredig ar gyfer dioddefwyr a thystion dros yr erlyniad. Pan fo'r adborth ar gyfer achos penodol yn disgyn o dan 'boddhaol', bydd y GSB yn ymchwilio.

## Trosolwg o'r adborth

Mae adborth ar draws y pedwar maen prawf a'r ddau fath o dyst wedi cael ei nodi fel cyfartaledd er mwyn rhoi cipolwg ar berfformiad cyfryngwyr cofrestredig, a adlewyrchir drwy adborth gan ddefnyddwyr yn 2025.

Yn y 1,231 o achosion lle cafwyd adborth, derbyniodd 99.6% adborth 'boddhaol', 'mwy na boddhaol' neu 'rhagorol'. O'r 0.4% arall, roedd 17 achos o adborth yn 'llai na boddhaol' ac roedd 3 achos o sgôr 'gwael'. Mae'r holl adborth sy'n disgyn islaw sgôr 'boddhaol' yn cael ei edrych arno gan arweinydd adborth a chwynion y GSB i sefydlu a oes angen cymryd camau pellach.




**Ffigur 12**

# Adborth ar draws yr holl feini prawf

Isod, mae’r holl ganlyniadau, sy’n cynnwys mathau o dystion a’r holl feini prawf adborth, wedi cael eu cyflwyno. Mae hyn yn adlewyrchu’r gwasanaeth o ansawdd uchel a ddarperir gan gyfryngwyr cofrestredig ar draws y WIS.

| Achosion dioddefwyr | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Meini Prawf Adborth** | **‘Rhagorol’ (%)** | **Mwy na Boddhaol (%)** | **Boddhaol (%)** | **Llai na Boddhaol (%)** | **Gwael (%)** | **Ymatebion** |
| **Cydymffurfio â’r drefn droseddol** | 92.4 (1,114) | 7.2 (87) | 0.2 (3) | 0.2 (2) | Dim | 1,206 |
| **Ymddygiad personol a phroffesiynoldeb** | 94.5 (1,143) | 4.7 (57) | 0.6 (7) | 0.2 (3) | Dim | 1,210 |
| **Ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd gan y cyfryngwr cofrestredig** | 93 (1,124) | 5.9 (71) | 0.7 (9) | 0.2 (3) | 0.1 (1) | 1,208 |
| **Pa mor ddefnyddiol oedd y cyfryngwr cofrestredig yn yr achos** | 92.5 (1,056) | 6.3 (72) | 0.5 (6) | 0.5 (6) | 0.2 (2) | 1,142 |

**Tabl 10**

| Achosion tystion dros yr erlyniad | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adborth** | **‘Rhagorol’ (%)** | **Mwy na Boddhaol (%)** | **Boddhaol (%)** | **Llai na Boddhaol (%)** | **Gwael (%)** | **Ymatebion** |
| **Cydymffurfio â’r drefn droseddol** | 92.3 (36) | 5.1 (2) | Dim | 2.6 (1) | Dim | 39 |
| **Ymddygiad personol a phroffesiynoldeb** | 94.9 (37) | 2.6 (1) | 2.6 (1) | Dim | Dim | 39 |
| **Ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd gan y cyfryngwr cofrestredig** | 92.3 (36) | 5.1 (2) | Dim | 2.6 (1) | Dim | 39 |
| **Pa mor ddefnyddiol oedd y cyfryngwr cofrestredig yn yr achos** | 92.3 (36) | 5.1 (2) | Dim | 2.6 (1) | Dim | 39 |

**Tabl 11**

# Ffigurau Cyfryngwyr Cofrestredig Gweithredol

Mae nifer y cyfryngwyr cofrestredig gweithredol ac anweithredol yn amrywio drwy gydol y flwyddyn. Mae'r ffigurau isod yn cyfateb i ffigurau gweithredol ac anweithredol ar 16eg diwrnod bob mis rhwng mis Ionawr 2023 a mis Rhagfyr 2025.

## Cyfryngwyr Cofrestredig Gweithredol

Mae cyfryngwr cofrestredig 'gweithredol' yn un sy'n mynd ati i dderbyn achosion newydd, fel y pennir gan yr NCA.

## Cyfryngwyr Cofrestredig Anweithredol

Mae cyfryngwr cofrestredig 'anweithredol' yn un sydd wedi'i gofnodi ar y Gofrestr Cyfryngwyr fel un nad yw ar gael i'w gynnig ac sy'n derbyn achosion newydd. Mae'n bosibl y bydd cyfryngwr cofrestredig anweithredol yn dal i weithio ar achosion parhaus. Cydnabyddir y bydd gan gyfryngwyr cofrestredig ymrwymiadau eraill a allai olygu eu bod yn anweithredol am gyfnodau.

Mae'r rhesymau dros anweithgarwch yn amrywio'n fawr ac yn cynnwys ymrwymiadau cyflogaeth sylfaenol, absenoldeb mamolaeth, cyfnodau sabothol, astudiaethau academaidd, a chyfnodau gwyliau. Mae hyd yr anweithgarwch hwn yn amrywio yn unol â hynny. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfnodau hyn yn fyr; mae gwaith cyfryngwr cofrestredig yn cael ei reoli o'u cwmpas ac mae'r NCA yn cael gwybod am eu statws.


## Trosolwg o argaeledd cyfryngwyr cofrestredig

Roedd nifer y cyfryngwyr cofrestredig gweithredol wedi amrywio yn ystod 2025 gyda chyfartaledd o 169 o gyfryngwyr cofrestredig gweithredol; sy'n cyfateb i 68.4% o gyfanswm cyfartalog y cyfryngwyr cofrestredig ar gofrestr WIS dros y cyfnod hwn (247). Mae hyn yn cynnydd ar y flwyddyn flaenorol lle'r oedd cyfartaledd nifer y cyfryngwyr cofrestredig gweithredol yn 160.


Ychwanegwyd cyfanswm o 29 o gyfryngwyr cofrestredig at gofrestr WIS yn 2025, gyda 16 cyfryngwyr cofrestredig yn gadael y Cynllun, gan arwain at gynnydd cyffredinol o 13 cyfryngwr cofrestredig - 5.26% o gynnydd yn capasiti'r WIS.[14]

[14] Cyfradd athreuliad WIS yn 6.5% (cyfartaledd cenedlaethol y DU yn 34% Busnes y DU: gweithgaredd, maint a lleoliad 2025 - GOV.UK)

**Ffigur 13**


Cyfradd gweithgaredd cyfryngwyr cofrestredig ar gofrestr WIS
300
250
200
150
100
50
0
243
242
244
243
244
243
251
250
249
249
248
254
149
158
170
178
171
165
160
185
190
173
167
156
94
84
74
65
73
78
91
65
59
76
81
98
Ion-25
Chwe-25
Maw-25
Ebr-25
Mai-25
Meh-25
Gorff-25
Awst-25
Medi-25
Hyd-25
Tach-25
Rhag-25
Gweithredol
Anweithredol
Cofrestredig

# Rhan tri: datblygiadau allweddol yn 2025




## Recriwtio Cyfryngwyr Cofrestredig

Ym mis Ionawr 2025, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymgyrch recriwtio wedi'i thargedu, gan ganolbwyntio ar recriwtio ymgeiswyr sydd â chefndir proffesiynol mewn salwch meddwl ac anableddau dysgu yn Swydd Lincoln, Dyfnaint a Chernyw, De Cymru, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Swydd Stafford, Llundain Fwyaf, Dyffryn Tafwys, Sussex, Northumbria a Gogledd, De a Gorllewin Swydd Efrog – lle nodwyd anghenion penodol drwy ddadansoddiad bylchau a gynhaliwyd gan yr NCA.

Arweiniodd pedwar cwrs hyfforddi at 29 cyfryngwr cofrestredig newydd yn ymuno â'r Cynllun yn 2025. Mae recriwtio ar sail dadansoddiad manwl o'r galw wedi galluogi'r Cynllun i ymateb i'r galw cynyddol a bodloni anghenion esblygol defnyddwyr gwasanaeth.

## Polisïau WIS wedi'u diweddaru

Ar ôl adolygu'r rhan fwyaf o bolisïau WIS yn 2024, canolbwyntiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ddiweddaru'r polisïau Sancsiynau ac Adborth a Chwynion yn 2025 i wneud y rhain yn haws eu gweithredu a'u llywio. Fel bob amser, rydym yn ddiolchgar i'r RIRT, y Bwrdd Llywodraethu a Safonau a chydweithwyr gweithredol y buom yn ymgynghori â nhw ar y diwygiadau polisi, gan gynnig adborth a gwybodaeth werthfawr i'w hymgorffori.

## Cynhadledd flynyddol WIS

Cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol WIS 2025 fel digwyddiad rhithiol gyda hyd at 140 o gyfranogwyr. Roedd yn gyfle gwerthfawr i gyfryngwyr cofrestredig ymgysylltu â chymheiriaid, rhanddeiliaid a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan alluogi trafodaeth ar agweddau allweddol ar eu gwaith, cydweithrediad ag asiantaethau megis yr heddlu a'r llysoedd, a chyfleoedd i gryfhau rhwydweithiau proffesiynol.

Mae'r gynhadledd flynyddol yn parhau i fod yn ddigwyddiad gwerthfawr sy'n cael ei gefnogi'n dda o fewn calendr WIS, gan ddod ag ymarferwyr at ei gilydd i archwilio meysydd penodol o ymarfer cyfryngwyr cofrestredig a defnyddio mesurau arbennig yn y system gyfiawnder.

Roedd y rhaglen yn cynnwys cyfraniadau gan amrywiaeth o siaradwyr, gan gynnwys cyfryngwyr cofrestredig, gweithwyr cyfiawnder troseddol proffesiynol ac academyddion. Roedd y sesiynau'n cynnwys mewnbwn gan Gynghorwr Tystion Agored i Niwed Cenedlaethol, archwiliad o ddylanwad y cyfryngwr o ran siapio croesholi, a chanllawiau ar weithio gydag achosion Trais a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO) a throsolwg gan sefydliad ambarél sy'n cynrychioli Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol.

## Cefnogaeth i gyfryngwyr cofrestredig sydd newydd gymhwyso

Rydym wedi parhau i annog cwblhau Adolygiadau Perfformiad a Chymorth Cynnar ar gyfer cyfryngwyr cofrestredig sydd newydd gymhwyso, gan adeiladu ar y fenter a gyflwynwyd y llynedd yn 2024. Mae'r adolygiadau hyn yn gyfle i fyfyrio ar ôl chwe mis o ymarfer, gyda chefnogaeth cyfryngwr cofrestredig profiadol.

Yn ystod 2025, rhoddodd 27 cyfryngwr cofrestredig sydd newydd gymhwyso adborth drwy'r broses hon, sy'n cael ei defnyddio i lywio gwelliannau parhaus i'r cynllun. Mae'r fenter yn parhau i fanteisio ar arbenigedd ymarferwyr profiadol i gefnogi datblygiad gyrfa gynnar a helpu i gynnal ansawdd y WIS.

## Cylchlythyr WIS

Mae'r Tîm Polisi Mesurau Arbennig Troseddol wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau a materion sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar y gymuned cyfryngwyr cofrestredig. Yn ystod 2025, cyhoeddodd y tîm gylchlythyrau WIS chwarterol i rannu'r wybodaeth hon ag ymarferwyr cyfryngwyr cofrestredig.

Roedd y cylchlythyrau hyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am enghreifftiau allweddol o waith cyfryngwyr cofrestredig, adborth cadarnhaol, a chanllawiau gweithdrefnol a chyfreithiol. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at yr ystod o weithgarwch cyfryngwyr cofrestredig drwy fyfyrdodau cymheiriaid ac yn dangos ansawdd gwasanaeth WIS gan ddefnyddio adborth gan bartneriaid yn yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

## Gwella dealltwriaeth o rôl cyfryngwyr cofrestredig

Yn ystod 2025, rydym wedi parhau â'r gwaith o wella dealltwriaeth rôl y cyfryngwyr cofrestredig yn y system gyfiawnder i sicrhau bod ymarferwyr cyfiawnder troseddol eraill yn gallu gweithio'n effeithiol gyda nhw. Fe wnaethom gynnal sesiynau gyda Lime Culture, The Survivors Trust a Rape Crisis England and Wales i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion ymysg Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a sut mae cyfryngwyr cofrestredig yn cefnogi anghenion cyfathrebu. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r cyfryngwyr cofrestredig hynny a gyflwynodd yn ogystal â'r rhai hynny a oedd yn bresennol yn y sesiynau.

## Hyfforddiant

Ym mis Ebrill 2025, cyflwynodd y Tîm Hyfforddi Cyfryngwyr Cofrestredig sawl diweddariad i'w cwrs hyfforddi, gan gynnwys diwrnod llawn yn canolbwyntio'n bennaf ar hyfforddiant mewn perthynas â Sicrhau'r Dystiolaeth Orau (ABE) ac ymarfer trawsgrifio yn ogystal ag ail-greu trawsgrifiad o ABE go iawn er mwyn i'r hyfforddeion allu cynnal trafodaeth er mwyn edrych yn fanwl ar eu barn a'u hymatebion eu hunain i rywfaint o'r wybodaeth anoddach a sut y cyfrannodd y cyfryngwyr cofrestredig yn gadarnhaol at y cyfweliad

# Rhan pedwar: cyllid y cynllun cyfryngwyr tystion

## Cyllideb weinyddol

Roedd cyllideb y WIS ar gyfer 2025/26 o gwmpas £832,000, gyda thua £690,000 o hyn wedi'i ddynodi ar gyfer Tîm Cyfryngwyr Tystion yr NCA a gwasanaeth cyfateb WIS.

Mae'r arian sy'n weddill yn cael ei ddyrannu ar draws y WIS, ac mae hyn yn cynnwys ariannu gwaith y GSB, RITT a'r RIRT yn ogystal â dyletswyddau corfforaethol a gyflawnir gan gyfryngwyr cofrestredig.

## Adolygiad blynyddol o gyfraddau tâl


Rhaid i gyfryngwyr cofrestredig anfonebu yn unol â chyfradd y cytunwyd arni'n genedlaethol. Mae'r ffioedd yn seiliedig ar gyfradd fesul awr, sy'n cynnwys apwyntiadau wyneb yn wyneb ac ysgrifennu adroddiadau, gan ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth o fewn terfynau polisi.

Ymrwymir i drefniant cytundebol pan fydd y cyfryngwr cofrestredig yn derbyn Cais am Wasanaeth. Mae'r trefniant hwn rhwng y cyfryngwr cofrestredig, sy'n unigolyn hunangyflogedig, a'r gwasanaeth y mae'r cais yn deillio ohono – yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron fel arfer.

Cytunir ar gyfraddau tâl gan Wasanaeth Erlyn y Goron a'r NPCC. Cynhelir adolygiad o gyfraddau tâl yn flynyddol ac mae'n dilyn gweithdrefn y cytunwyd arni, gyda chyfryngwyr cofrestredig yn cael eu gwahodd i gyflwyno cynnig ynghylch tâl. Dyfarnwyd 2.8% o gynnydd i gyfradd tâl craidd fesul awr 2025/26 i gyfryngwyr cofrestredig (roedd y cynnydd hwn hefyd yn berthnasol i'r cyfraddau amser teithio ac anghymdeithasol).

| Dyfarniadau cyflog cyfryngwyr cofrestredig (hanes diweddar) | | |
|---|---|---|
| **Blwyddyn Ariannol** | **Dyfarniad (% Cynnydd)** | **Cyfradd Graidd Fesul Awr ar ôl y Dyfarniad (£)** |
| **2019-20** | **1** | **39.33** |
| **2020-21** | **1.5** | **39.92** |
| **2021-22** | **Dim** | **39.92** |
| **2022-23** | **3** | **41.20** |
| **2023-24** | **3.5** | **42.64** |
| **2024-25** | 3 | **43.92** |
| **2025-26** | 2.8 | **45.15** |

# Rhan pump: edrych tua'r dyfodol




## Cynyddu gallu WIS

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dal yn ymrwymedig i fuddsoddi mewn recriwtio a hyfforddi cyfryngwyr cofrestredig newydd i gynyddu gallu WIS. Yn 2026, rydym yn parhau â'n strategaeth recriwtio gydag ymgyrch genedlaethol sy'n seiliedig ar ddadansoddiad data WIT i dargedu meysydd a sgiliau y mae galw mawr amdanynt. Dylai hyn ein galluogi i hyfforddi pedair carfan arall o gyfryngwyr cofrestredig a sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu bodloni.

## Codi Ymwybyddiaeth

Byddwn yn parhau i hyrwyddo rôl y cyfryngwyr cofrestredig a dealltwriaeth o'r hyn maent yn ei wneud a sut maent yn cefnogi anghenion cyfathrebu, gan ddefnyddio cyfleoedd i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o natur unigryw'r rôl a sut mae cyfryngwyr cofrestredig yn unigryw gymwys i alluogi plant ac oedolion agored i niwed sydd â chyflyrau iechyd meddwl, anableddau dysgu ac anableddau corfforol i roi eu tystiolaeth orau.

## Datblygu effeithlonrwydd WIS

Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd o sicrhau bod y Cynllun yn gwella ar gyfer cyfryngwyr cofrestredig a defnyddwyr fel ei gilydd. Er enghraifft, yn ystod 2025 cynhaliwyd gweithdai gan Gynghorwr Tystion Agored i Niwed Cenedlaethol, a oedd yn canolbwyntio ar gynnal asesiad cynllunio a pharatoi cyn cyfweliad effeithiol o blant. Mae'r fframwaith hwn yn helpu'r Heddlu i fodloni'r gofyniad o ran gwaith paratoi cyn cyfweliad, gan gynnwys asesiad o anghenion ac i helpu i sefydlu a oes anawsterau cyfathrebu. Nod hyn yw helpu i nodi pa gymorth y gallai fod ei angen ar berson agored i niwed i gwblhau cyfweliad fideo wedi'i recordio ac i lywio ei benderfyniad ynghylch pryd mae angen iddo ddefnyddio cyfryngwr cofrestredig, yn ogystal â helpu i ddatblygu perthynas, a pharatoi tyst ar gyfer y broses gyfweld.

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2025**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i, nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.